Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Y Rhyl
# Ffordd Grange
# Y Rhyl
# Sir Ddinbych
# LL18 4BY

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1:** **Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2:** **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3:** **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2014**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg 11 i 16 oed cyfrwng Saesneg yn nhref arfordirol y Rhyl, Sir Ddinbych yw Ysgol Uwchradd y Rhyl. Mae 772 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n is na'r nifer (1,024) adeg yr arolygiad diwethaf yn Nhachwedd 2008, pan oedd chweched dosbarth yn yr ysgol.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r awdurdod lleol wedi ad-drefnu darpariaeth ôl-16 yn y Rhyl ac mae'r ysgol wedi cau ei darpariaeth chweched dosbarth. Mae adeilad ysgol newydd yn cael ei godi ar dir yr ysgol ac fe gaiff yr holl ddisgyblion eu haddysgu yn yr adeiladau presennol, i baratoi ar gyfer symud i'r adeilad ysgol newydd yn nhymor yr hydref 2015.

Mae dau ddeg naw pwynt naw y cant (29.9%) o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.7%. Mae dros 44% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Daw disgyblion o saith ysgol gynradd yn yr ardal. Mae bron pob un o'r disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ychydig iawn o ddisgyblion. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith.

Mae disgyblion yr ysgol yn cynnwys yr ystod gallu llawn. Mae gan 34% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19.2%. Mae canran y disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (1%) yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.5%.

Cyflwynodd yr ysgol Gymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 yn 2011.

Penodwyd y pennaeth presennol yn 2010. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys dau ddirprwy bennaeth a dau bennaeth cynorthwyol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd y Rhyl yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £5,028 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Sir Ddinbych yw £5,028 a'r isafswm yw £4,142. Mae Ysgol Uwchradd y Rhyl yn gyntaf allan o'r wyth ysgol uwchradd yn Sir Ddinbych o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae disgyblion yn cyflawni safonau da yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg ac ystod ehangach o gymwysterau;
- mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod uwchlaw disgwyliadau am y ddwy flynedd diwethaf;
- mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu ac mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda;
- mae trefniadau'r cwricwlwm yn cynnig ystod gynhwysfawr o gyrsiau a rhaglenni sy'n bodloni anghenion, diddordebau a galluoedd disgyblion yn dda;
- mae lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad; ac
- mae'r ysgol yn gweithio'n eithriadol o dda gydag ystod eang o bartneriaid ac fe gaiff y gwaith hwn effaith sylweddol ar gyflawniad, ymgysylltiad a lles disgyblion.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad hynod effeithiol ac fe gaiff gefnogaeth dda gan yr uwch dîm arweinyddiaeth;
- caiff gweledigaeth a blaenoriaethau'r ysgol eu cyfleu yn dda i bob aelod o staff;
- ceir diwylliant cryf o atebolrwydd ar bob lefel;
- mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar wella safonau yng nghyfnod allweddol 4, lles ac ar wella ansawdd y ddarpariaeth a gweithio mewn partneriaeth;
- mae llywodraethwyr yn wybodus iawn ac yn herio'r ysgol yn effeithiol;
- mae gan yr ysgol drefniadau manwl ar gyfer hunanarfarnu wedi'u seilio ar ddadansoddiad trylwyr o ddata a thystiolaeth o ystod addas o ffynonellau; ac
- mae gweithdrefnau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd yn cefnogi hunanarfarnu a chynllunio datblygiad yn dda.

## Argymhellion

A1 Gwella'r safonau a gyflawnir gan fechgyn a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

A2 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

A3 Gwella'r ffordd y caiff cynlluniau eu rhoi ar waith i ddatblygu ystod lawn medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn unol â'r hyn a amlinellir yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd addas

A4 Cynnwys disgyblion a rhieni yn dda mewn prosesau hunanarfarnu

A5 Gwella ansawdd gwybodaeth a chymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fel bod athrawon yn defnyddio strategaethau addysgu a dysgu yn effeithiol i fodloni eu hanghenion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4 ym mhob dangosydd wedi gwella'n gyflym dros y ddwy flynedd diwethaf ac mae gryn dipyn yn well na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg erbyn hyn. Mae perfformiad yn well na disgwyliadau wedi'u modelu mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf hefyd. Mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gwella dros y ddwy flynedd diwethaf ac mae'n cymharu'n dda â pherfformiad ar gyfer ysgolion tebyg erbyn hyn. Mae cynnydd disgyblion o gyfnodau allweddol blaenorol yn well na'r disgwyl ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion.

Yn 2013, ni adawodd unrhyw ddisgybl yr ysgol heb gymhwyster ac mae llawer ohonynt yn parhau mewn addysg amser llawn ar ôl Blwyddyn 11.

Yng nghyfnod allweddol 3, yn 2013, mae merched yn gwneud yn well na bechgyn yn y pynciau craidd ar wahân ac mae'r pynciau hyn o'u cyfuno a'r bwlch rhwng eu perfformiad yn fwy na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Yng nghyfnod allweddol 4, mae merched yn parhau i wneud yn well na bechgyn ac mae'r bwlch yn fwy na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pob dangosydd.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio islaw cyfartaledd y teulu yn gyffredinol. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mae tuedd o berfformiad yn gwella ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Maent yn perfformio'n well na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg a'r cyfartaledd yn genedlaethol ar gyfer y dangosyddion hynny sy'n cynnwys ystod ehangach o gymwysterau. Yn 2013, nid yw'r disgyblion hyn yn perfformio cystal â chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru ar gyfer y dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, mae eu perfformiad yn y tair blynedd blaenorol yn y dangosyddion hyn wedi bod yn well na chyfartaledd y teulu ar gyfer y disgyblion hyn. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni yn unol â'r disgwyl.

Mewn mwyafrif o wersi, mae disgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac maent yn defnyddio hyn i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio a chymhwyso terminoleg pwnc yn effeithiol. Yn benodol, mae disgyblion is eu gallu yn gwneud cynnydd cyflym pan roddir her iddynt. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd pan na chaiff tasgau eu gweddu i'w hanghenion yn ddigonol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar eu hathro a'u cyfoedion. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn esbonio cysyniadau a syniadau'n glir ac yn defnyddio geirfa ddethol sy'n benodol i bwnc yn eu disgrifiadau a'u hesboniadau. Fodd bynnag, mae atebion lleiafrif o ddisgyblion ar lafar yn fyr a heb ddatblygu ac nid yw rhai disgyblion yn hyderus wrth siarad mewn trafodaethau dosbarth neu grŵp.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod gallu yn darllen er gwybodaeth yn dda ac yn dewis manylion priodol i gefnogi barn. O roi cyfleoedd iddynt ddarllen yn uchel, mae llawer ohonynt yn gwneud hynny'n gywir ac yn glir. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dadansoddi ac yn llunio casgliadau priodol o wybodaeth a ddarllenant mewn ystod o destunau. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cyfosod y wybodaeth hon yn dda.

Caiff lleiafrif o ddisgyblion anawsterau sylweddol â darllen pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn mewn grwpiau ymyrraeth.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gadarn ar gyfer ystod briodol o gynulleidfaoedd a dibenion. Mae mwyafrif o ddisgyblion o wahanol oedrannau a gallu yn ysgrifennu'n gywir ac yn defnyddio ystod dda o eirfa. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig mewn *genres* addas, er enghraifft adroddiadau papur newydd, ymchwiliadau, naratifau, a llythyrau ffurfiol. Fodd bynnag, mae gorddefnydd o daflenni gwaith mewn rhai pynciau yn cyfyngu ar ystod ac ansawdd ysgrifennu estynedig disgyblion, gan fod eu hatebion ysgrifenedig naill ai'n rhy fyr neu nid ydynt yn cynnwys esboniad manwl. Nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn cywiro'u camgymeriadau sillafu neu atalnodi yn rheolaidd.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'r medrau rhifedd a ddysgwyd mewn gwersi mathemateg yn dda ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio mesuriadau'n gywir a gallant esbonio a dehongli data o ystod briodol o ffynonellau. Mewn rhai pynciau, mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith graff wedi'i gyflwyno'n dda. Nid yw rhai disgyblion yn cyfrifo tasgau rhif syml yn gywir, mewn perthynas â'u hoedran a'u gallu, neu nid ydynt yn siŵr sut i gofnodi mesuriadau.

Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn ennill cymwysterau medrau mewn cyfathrebu, cymhwyso rhif, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), datrys problemau a gweithio gydag eraill ar lefel briodol.

Mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad disgyblion wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf ac mae'n well na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn 2013, mae perfformiad yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim. Yng nghyfnod allweddol 4, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud yn dda yn y cwrs byr Cymraeg ail iaith. Fodd bynnag, mae'r nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n cael eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster cwrs llawn yn gwneud yn dda.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a dywed llawer ohonynt fod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae llawer ohonynt yn deall beth yw bod yn iach ac fe gaiff bob un o'r disgyblion gyfleoedd rheolaidd ar gyfer ymarfer corff. Yn benodol, ceir cyfradd cyfranogi uchel mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon y mae disgyblion yn eu mwynhau. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, ac maent yn gwrtais ac yn barchus tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at waith. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn ymddwyn yn ddigon da mewn gwersi ac mae hyn yn tarfu ar eu dysgu eu hunain a dysgu disgyblion eraill.

Er 2010, mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella'n sylweddol ac wedi bod uwchlaw'r disgwyliadau am y tair blynedd diwethaf. Yn 2013, mae cyfraddau presenoldeb yn gosod yr ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim, lle bu yn y chwarter uchaf yn y ddwy flynedd blaenorol. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn yr ysgol am y pum mlynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae gwaharddiadau cyfnod penodol wedi gostwng yn sylweddol.

Dywed llawer o ddisgyblion fod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn gwneud y newidiadau y maent yn eu hawgrymu. Trwy'r cyngor ysgol a'r grŵp gweithredu ar faeth yn yr ysgol, caiff llawer o ddisgyblion eu cynnwys yn addas wrth wneud penderfyniadau am fyw yn iach, ymddygiad a pholisïau gwobrau, a gwisg yr ysgol. Fodd bynnag, mae gan ddisgyblion ddylanwad mwy cyfyngedig o ran beth a sut maent yn dysgu.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn dda ac yn ennill dealltwriaeth fuddiol o fywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol trwy ystod eang ac arloesol o weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gwerthfawr ar gyfer mentora cyfoedion, a chyfleoedd eithriadol a ddarperir trwy bartneriaethau, er enghraifft gyda chyfryngau digidol a'r clwb pêl-droed lleol, yn ogystal â gyda gwasanaethau cyhoeddus trwy golegau a chwmnïau hyfforddi. O ganlyniad, mae disgyblion sy'n agored i niwed a'r rhai sydd mewn perygl o beidio ag aros mewn addysg yn datblygu eu medrau fel dysgwyr cyfrifol yn effeithiol ac yn gwneud cynnydd da.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion statudol, ac anghenion a diddordebau pob disgybl. Mae cynllunio cwricwlwm arloesol a chysylltiadau datblygedig gydag ysgolion cynradd partner yn sicrhau bod parhad cwricwlwm effeithiol rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn cynnig ystod gynhwysfawr o lwybrau dysgu, sy'n cynnwys cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer dysgu yn y gwaith ac ennill cymwysterau.

Mae trefniadau cwricwlwm yr ysgol yn ymatebol iawn i anghenion, diddordebau a galluoedd disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n hynod effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid i ddarparu cwricwlwm sy'n cefnogi disgyblion, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mae hyn wedi arwain at welliant sylweddol mewn safonau yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sydd â chyfraddau cyfranogi uchel, gan gynnwys celf, drama, a gweithgareddau chwaraeon fel beicio mynydd, hwylio a chwaraeon tîm.

Mae llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ennill cymwysterau mewn medrau yng nghyfnod allweddol 3, ac yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. Mae gan yr ysgol strategaethau effeithiol ar waith i ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn cefnogi datblygiad y medrau priodol yn ddigon da. Nid yw

strategaethau'r ysgol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn cysylltu'n ddigon agos â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae darpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith yn briodol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae cyflwyno ystod ehangach o gymwysterau wedi gwella'r ddarpariaeth, yn enwedig ar gyfer disgyblion gallu is yng nghyfnod allweddol 4. Ar draws yr ysgol, mae cyfleoedd ar gyfer datblygu'r Gymraeg y tu allan i wersi yn fwy cyfyngedig. Ceir darpariaeth foddhaol ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig. Mae hyn yn cynnwys eisteddfod ysgol flynyddol ac ymweliadau â lleoliadau hanesyddol a lleoliadau chwaraeon.

Mae darpariaeth yr ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth briodol o'r angen i ailgylchu a byw yn gynaliadwy. Nid yw dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang wedi'i datblygu cystal.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi'n dda i gynnwys amcanion clir sy'n cael eu rhannu'n effeithiol gyda disgyblion. Mae gan lawer o athrawon berthynas weithio gadarnhaol gyda disgyblion sy'n cefnogi dysgu'n dda. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu a'r asesu yn amrywio gormod.

Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn cynllunio gwersi'n drylwyr i gynnwys ystod briodol o dasgau sy'n cael eu dewis yn dda fel eu bod yn addas ar gyfer diddordebau, anghenion a gallu disgyblion. Mae gan athrawon yn y gwersi hyn ddisgwyliadau uchel ac maent yn darparu amgylchedd dysgu cefnogol. Maent yn rheoli ymddygiad yn gadarnhaol ac yn monitro grwpiau ac unigolion yn dda i gefnogi eu dysgu. Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn defnyddio holi medrus i annog disgyblion i ehangu eu gwybodaeth. Maent yn darparu sylwadau cefnogol i helpu disgyblion i ddeall eu lefelau targed a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae hyn yn cynnwys modelu atebion ac esbonio iaith sy'n benodol i bwnc yn dda.

Mae'r addysgu yn llai effeithiol mewn lleiafrif o wersi. Mae hyn yn fwyaf cyffredin am nad yw tasgau'n gweddu'n dda i alluoedd a diddordebau disgyblion, mae athrawon yn rhoi gormod o gyfeiriad mewn gwersi, neu mae athrawon yn cyflwyno tasgau newydd cyn gwneud yn siŵr bod disgyblion wedi atgyfnerthu eu dysgu. O ganlyniad, mae'r wers yn symud yn rhy araf ac mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd. Mewn rhai gwersi, nid yw athrawon yn holi cwestiynau yn ddigon medrus i brocio dealltwriaeth disgyblion neu esbonio'n glir sut gallant wella'u gwaith. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn ei chael yn anodd mynd i'r afael â sylwadau athrawon i gefnogi'r camau nesaf ar gyfer gwella.

Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio dull cyffredin o asesu a marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Mae tua hanner o'u sylwadau yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith, er mai ychydig iawn o ddisgyblion sy'n mynd i'r afael â'r sylwadau hyn. Nid yw hanner arall y sylwadau a wna athrawon yn ddigon manwl gywir ac, er eu bod yn gefnogol ar y cyfan, nid ydynt yn rhoi arweiniad digon da i ddisgyblion ynghylch sut i wneud gwelliannau penodol.

Trwy olrhain cynnydd disgyblion yn drylwyr, caiff tangyflawni ei nodi'n dda. Mae'r camau cyflym i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar ddisgyblion yn sicrhau bod llawer ohonynt yn bodloni targedau sy'n briodol o heriol.

Mae adroddiadau i rieni yn cynnwys gwybodaeth werthfawr am gynnydd disgyblion. Maent yn rhoi cyfle defnyddiol i rieni, ond nid disgyblion, roi sylwadau ar gynnydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth ar gyfer cefnogi iechyd a lles disgyblion yn effeithiol ac fe gaiff effaith gadarnhaol ar wella ymddygiad a phresenoldeb disgyblion. Ceir gweithdrefnau cadarn ar gyfer monitro ac olrhain presenoldeb ac ymddygiad. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion ei ddatblygu'n dda trwy wersi cred a moeseg, gwasanaethau a chyfnodau myfyrdod am y dydd mewn cyfnodau tiwtor dosbarth.

Mae'r ysgol yn rhoi cyngor cynhwysfawr i ddisgyblion am ddewisiadau pwnc ar gyfer cyfnod allweddol 4 ac opsiynau ôl-16. Mae staff yn gweithio'n eithriadol o dda gydag ysgolion cynradd partner i sicrhau bod disgyblion yn ymgynefino'n gyflym a bod parhad yn eu dysgu a'u lles. Mae cydweithio ag asiantaethau arbenigol allweddol yn gryfder penodol yn yr ysgol. Mae'r partneriaethau hyn wedi gwella ymgysylltiad disgyblion yn sylweddol mewn dysgu. Mae trefniadau cymorth ymddygiad yr ysgol yn effeithiol wrth ddatblygu medrau datrys gwrthdaro a gwydnwch ar gyfer ei disgyblion sydd fwyaf agored i niwed.

Mae'r ysgol yn nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn briodol ac yn darparu cymorth addas ar gyfer disgyblion a nodwyd. Gall disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fanteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys, gan gynnwys cwricwlwm wedi'i addasu mewn modd dychmygus ym Mlwyddyn 9 a chyfnod allweddol 4. Mae hyn wedi bod yn eithriadol o fuddiol wrth ennyn diddordeb yn eu dysgu o'r newydd ac ennill cymwysterau perthnasol. Caiff rhieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn. Er bod yr ysgol yn defnyddio data i nodi a monitro cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, nid yw wedi sefydlu mecanwaith cadarn ar gyfer mesur effaith ac effeithiolrwydd ymyriadau unigol eto. Nid yw gwybodaeth am anghenion penodol disgyblion yn ddigon manwl i lywio cynllunio gwersi mewn gwersi prif ffrwd. O ganlyniad, nid yw athrawon bob amser yn gwybod beth yw'r strategaethau gorau i fodloni anghenion amrywiol y disgyblion hynny.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol, gofalgar, dyheadol a chefnogol. Mae'n gymuned bwrpasol wedi'i seilio ar barch ar y ddwy ochr a disgwyliadau uchel. Mae'r ysgol yn cyflawni ei nod, sef cael disgyblion i wneud cynnydd, a datblygu i fod yn unigolion aeddfed, cyfrifol a pharchus. Mae'r ysgol yn herio stereoteipio ym mhob agwedd ar ei darpariaeth ac mae'n hyrwyddo cydraddoldeb yn effeithiol. Mae'n nodi ac yn

dathlu amrywiaeth yn dda. Gall pob disgybl wneud defnydd cyfartal o gwricwlwm eang yr ysgol ac ystod y gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael.

Mae'r adeiladau presennol yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr, ac er bod ansawdd y rhan fwyaf ohonynt yn gymharol wael, mae'r ysgol yn gwneud y defnydd gorau o'i hen adeiladau i greu amgylchedd dysgu addas yn y cyfnod trosglwyddo cyn symud i'w hadeilad newydd. Caiff yr adeiladau, sy'n cynnwys toiledau a chyfleusterau newydd, eu cynnal yn briodol.

Mae'r arddangosfeydd lliwgar mewn ystafelloedd dosbarth, coridorau a mannau cymunedol yn cefnogi dysgu'n dda. Ceir digon o adnoddau dysgu bron ym mhob maes pwnc. Mae'r llyfrgell fach yn darparu amgylchedd golau a chroesawgar a ddefnyddir gan rai disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio'r neuadd chwaraeon gyfagos yn dda i ychwanegu at ei chyfleusterau chwaraeon a ffitrwydd. Mae tir yr ysgol yn ddiogel, yn saff ac yn cael ei gynnal yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth hynod effeithiol a chyfeiriad cryf ar gyfer yr ysgol. Mae'r pennaeth, sy'n cael cefnogaeth dda gan yr uwch dîm arweinyddiaeth, wedi creu gweledigaeth strategol glir yn llwyddiannus ar gyfer yr ysgol. Mae hyn wedi'i seilio ar godi dyheadau, disgwyliadau uchel a chreu diwylliant lle cydnabyddir mai gwella cyfleoedd disgyblion mewn bywyd yw prif flaenoriaeth yr ysgol. Mae gweledigaeth yr ysgol wedi cael ei chyfleu'n dda i staff, disgyblion, rhieni a rhanddeiliaid allweddol. O ganlyniad, ceir synnwyr cryf o ddiben ar draws cymuned yr ysgol gyfan, sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at godi safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, a gwella lles disgyblion.

Mae blaenoriaethau gan uwch arweinwyr, sy'n canolbwyntio ar faterion pwysig perfformiad a darpariaeth, yn gyrru'r agendâu ar gyfer arweinwyr canol a chyfarfodydd tîm. Mae hyn yn helpu staff ar bob lefel i gael ymwybyddiaeth glir o flaenoriaethau ysgol gyfan a'u rôl wrth gyfrannu atynt. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol hefyd, fel lleihau effaith difreintedd ar gyrhaeddiad, a adlewyrchir yng nghynlluniau datblygiad strategol yr ysgol.

Caiff rolau a chyfrifoldebau staff eu diffinio'n dda mewn disgrifiadau swydd manwl sy'n rhoi pwyslais priodol ar godi safonau, gwella arfer staff a chyfrannu at y cyfeiriad strategol. Mae trefniadau rheoli llinell clir yn sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi'n dda yn eu gwaith ac fe geir diwylliant cryf o atebolrwydd.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn darparu ffordd effeithiol i osod targedau ar gyfer gwella sy'n cefnogi cyflwyno cynlluniau strategol a chynlluniau datblygu pwnc yr ysgol. Caiff gwaith y staff ei adolygu'n drylwyr, a phan fydd angen, eir i'r afael â thanberfformio mewn modd priodol a sensitif. Er bod trefniadau rheoli perfformiad yn nodi anghenion datblygu hyfforddiant unigol ac ysgol gyfan, nid ydynt wedi cynnwys ffocws digon clir ar sut i wella agweddau ar addysgu a dysgu a datblygu medrau disgyblion.

Ar draws yr ysgol, gwneir defnydd trylwyr o ddata i osod targedau heriol a monitro ac olrhain perfformiad. Gan weithio gyda staff, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi defnyddio'r data yn dda i nodi ac olrhain meysydd pwysig i'w gwella, a'u rhoi ar waith. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi helpu'r ysgol i gael hanes llwyddiannus o reoli newidiadau a'u rhoi ar waith er lles safonau disgyblion, gwella cyfraddau presenoldeb, lleihau gwaharddiadau cyfnod penodol a gwella ansawdd y ddarpariaeth.

Mae gan aelodau o'r corff llywodraethol rôl weithredol ym mywyd yr ysgol ac fe gânt eu hysbysu'n dda am berfformiad yr ysgol. Maent yn wybodus iawn am yr ysgol ac yn herio'r ysgol yn effeithiol, yn enwedig o ran y safonau a gyflawnir ac ansawdd y ddarpariaeth gwricwlaidd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol a llwyddiannus yn eu lle i sicrhau gwelliant. Mae gweithdrefnau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd yn cefnogi cylch trylwyr o weithgareddau hunanarfarnu. Mae gan arweinwyr ar bob lefel ddealltwriaeth glir o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol ac maent yn deall eu rolau yng ngwelliant yr ysgol yn llawn.

Mae deilliannau gweithgareddau hunanarfarnu yn ffurfio sylfaen cynllunio gwelliant yr ysgol. Mae blaenoriaethau a chamau gweithredu wedi'u seilio ar y prif feysydd i'w gwella a nodir yn adroddiad hunanarfarnu'r ysgol. Mae hyn wedi arwain at gynlluniau datblygu clir ac mae'r camau a gymerwyd o ganlyniad wedi arwain at welliannau cadarnhaol iawn mewn safonau yng nghyfnod allweddol 4 a lles.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn darparu sylfaen effeithiol ar gyfer creu'r cynllun datblygu ysgol. Mae adrannau yn llunio adroddiadau hunanarfarnu blynyddol hefyd. Mae'r rhain yn gyson o ran ansawdd ac yn drylwyr.

Ceir prosesau systematig i arfarnu perfformiad a darpariaeth yr ysgol ar sail dadansoddiad manwl o ddata ac ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau. Er bod y prosesau hyn yn addas, mae'r canfyddiadau o ran safonau addysgu yn rhy hael ar y cyfan ac nid yw'r meysydd a nodwyd ar gyfer gwella wedi sicrhau cysondeb cyffredinol yn ansawdd yr addysgu eto. Nid oes gan safbwyntiau rhieni a disgyblion ran ddigon llawn yng ngweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol eto. Mae'r ysgol eisoes wedi nodi bod hwn yn faes i'w ddatblygu.

Mae cynllun datblygu strategol yr ysgol yn gynhwysfawr a manwl, ac mae wedi'i seilio ar y canfyddiadau yn yr adroddiad hunanarfarnu. Mae'r cynllun wedi'i wahanu yn bum cynllun gweithredol, a phob un yn cael ei arwain gan uwch arweinydd. Mae'r cynlluniau hyn yn glir, ond yn gyffredinol, nid yw'r meini prawf ar gyfer llwyddiant yn mesur eu heffaith ar ddeilliannau penodol. Mae cynlluniau gwella adrannol yn deillio'n naturiol o'r cylch hunanarfarnu a gweithgareddau sicrhau ansawdd. Mae'r dogfennau gweithio hyn wedi ysgogi ffocws craff iawn ar safonau a chamau gweithredu addas ar gyfer gwella.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf iawn wrth fynd i'r afael â llawer o'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol wedi datblygu perthnasoedd rhagorol gydag ystod eang o bartneriaid. Mae'r rhain yn ymestyn profiadau dysgu yn sylweddol ac yn cryfhau'r trefniadau i ofalu am ddisgyblion, eu cynorthwyo a rhoi arweiniad iddynt yn eithriadol o dda. Mae effaith y partneriaethau hyn gyda'i gilydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol o dda at wella safonau a lles disgyblion.

Ceir cydweithio helaeth o fewn clwstwr y Rhyl a gyda'r ysgolion sy'n bwydo'r ysgol yn benodol. Mae hyn yn sicrhau cyfnod pontio esmwyth, er enghraifft trwy sicrhau parhad mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, a herio'r disgyblion mwy abl mewn Saesneg a mathemateg. Mae gweithgareddau pontio helaeth ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed yn eu helpu i ymgynefino'n gyflym pan fyddant yn ymuno â'r ysgol, er enghraifft trwy raglen ymsefydlu pedair wythnos a gweithgareddau difyr fel y cynllun 'pysgota i blant'.

Mae partneriaethau sefydledig gyda'r coleg lleol a darparwyr eraill yn y gymuned leol yn ymestyn darpariaeth y cwricwlwm yn effeithiol iawn, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. Mae hyn wedi arwain at lefelau uchel o ymgysylltu â disgyblion a deilliannau sydd gryn dipyn yn well.

Mae cysylltiadau'r ysgol ag ystod eang o asiantaethau allanol, fel y tîm o amgylch y teulu, cymorth ymddygiad, gwasanaethau cynhwysiant ac ieuenctid, sefydliadau iechyd meddwl, ac elusennau, yn hynod effeithiol wrth gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed.

Mae gan yr ysgol berthnasoedd cadarn gyda'i rhieni a'i gofalwyr. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am waith yr ysgol ac fe gânt wybodaeth o ansawdd da am les a chynnydd eu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn arbennig o dda. Trwy ei threfniadau busnes strategol gyda'i chlwstwr o ysgolion cynradd, mae'r ysgol wedi gallu cryfhau'r ddarpariaeth a sicrhau manteision effeithlonrwydd. Defnyddir staff addysgu a chymorth yn dda i wneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth a'u harbenigedd a bodloni anghenion disgyblion.

Mae staff yn elwa ar ystod addas o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i gynyddu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth broffesiynol. Caiff y rhain eu nodi'n briodol trwy amcanion rheoli perfformiad ac maent yn adlewyrchu blaenoriaethau ysgol gyfan ac adrannol. Er bod staff yn cael eu cynorthwyo'n dda i raddau helaeth trwy gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus, nid oes digon o ffocws ar rannu arfer dda yn rheolaidd yn yr ysgol, yn enwedig mewn addysgu, dysgu a sut i ddatblygu medrau disgyblion.

Mae rheolwr busnes strategol yr ysgol, trwy gydweithio â'r pennaeth a'r corff llywodraethol, yn rheoli a monitro'r holl wariant yn drylwyr.  Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyllidebu strategol gofalus a rheolaeth ariannol bwyllog, wedi helpu'r ysgol i wella deilliannau yn sylweddol ar yr un pryd â rheoli gostyngiad mawr yn y gyllideb wedi'i ysgogi gan ostyngiad yn niferoedd y disgyblion.  Mae'r ysgol mewn sefyllfa ariannol gadarn erbyn hyn ar ôl bod â diffyg yn ei chyllideb am y pedair blynedd diwethaf.

Yng ngoleuni'r deilliannau da, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, am y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion. O gymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg ar sail lefelau cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi aros yn y chwarter isaf. O gymharu â disgwyliadau wedi'u modelu, mae perfformiad uwchlaw'r disgwyliadau

Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 ac yn uwch wedi dangos gwelliant cyflym yn 2013 ar ôl perfformiad cyson yn y tair blynedd blaenorol. Yn 2013, mae'r perfformiad hwn mewn Saesneg yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ac uwchlaw cyfartaledd y teulu, o fod yn y chwarter isaf ac islaw cyfartaledd y teulu yn y gorffennol. Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 6 ac yn uwch wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae wedi bod islaw cyfartaledd y teulu bob amser ac mae wedi gosod yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg ar sail lefelau cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim am y pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad mewn Mathemateg ar lefel 5 ac yn uwch wedi gwella'n gyson yn y pedair blynedd diwethaf ond mae wedi bod islaw cyfartaledd y teulu. O ran meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad mewn mathemateg wedi gosod yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Ar lefel 6 neu'n uwch, mae perfformiad mewn mathemateg wedi bod yn gyson mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, ac uwchlaw cyfartaledd y teulu yn gyffredinol. Yn 2013, mae'n gosod yr ysgol yn hanner is yr ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf, ac mae wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu am y ddwy flynedd diwethaf. Yn 2013, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim o fod islaw'r canolrif yn y gorffennol. Ar lefel 6 ac yn uwch, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf, ac yn 2013, mae uwchlaw cyfartaledd y teulu. O ran meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 6 neu'n uwch yn gosod yr ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg.

Mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol gryn dipyn islaw'r disgwyliadau ar gyfer y dangosydd pwnc craidd a mathemateg ac mae islaw'r disgwyliadau ar gyfer gwyddoniaeth hefyd, ond uwchlaw'r disgwyliadau ar gyfer Saesneg.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg wedi dangos gwelliant dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2013, mae'r perfformiad hwn ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu, sy'n gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o

ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim. Yn 2012 a 2013 fel ei gilydd, mae perfformiad wedi bod uwchlaw disgwyliadau wedi'u modelu. Mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd yn dangos patrwm tebyg i'r patrwm yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg. Yn 2013, mae'r perfformiad hwn uwchlaw cyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru.

Mae perfformiad ar drothwy lefel 2 yn dangos perfformiad gwell dros y pedair blynedd diwethaf o sylfaen isel. Ar gyfer 2012 a 2013, mae'r perfformiad hwn uwchlaw cyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim, lle bu islaw'r canolrif yn y gorffennol yn 2010 a 2011.

Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn dangos tuedd o welliant cyson dros y pedair blynedd diwethaf ac mae wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu am y ddwy flynedd diwethaf hefyd. Yn 2013, mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2012 a 2013 fel ei gilydd, mae perfformiad wedi bod uwchlaw disgwyliadau wedi'u modelu. Mae perfformiad ar drothwy lefel 1 yn dangos gwelliant cyson hefyd ac mae wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu am y ddwy flynedd diwethaf. Yn 2013, mae perfformiad ar lefel 1 uwchlaw cyfartaledd Cymru ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim, lle bu yn y chwarter isaf neu'r hanner is yn y gorffennol.

Mae perfformiad mewn Saesneg wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd diwethaf. Mae uwchlaw cyfartaledd y teulu erbyn hyn wedi iddo fod islaw cyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru am y tair blynedd blaenorol. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim, yn 2013, mae perfformiad mewn Saesneg yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf lle bu yn y chwarter gwaelod neu'r hanner is am y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn mathemateg yn dangos gwelliant cyson tebyg ac mae wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru yn y ddwy flynedd diwethaf. Ar gyfer meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad mewn mathemateg yn 2012 a 2013 wedi gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg. Yn 2013, mae cynnydd disgyblion o'r cyfnodau allweddol blaenorol yn llawer gwell na'r disgwyl ar gyfer trothwy lefel 2, ac uwchlaw disgwyliadau ar gyfer trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg, y dangosydd pwnc craidd, sgôr pwyntiau wedi'i chapio a throthwy lefel 1.

Nid oes unrhyw ddisgybl wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster yn 2013 ac mae llawer o ddisgyblion yn parhau mewn addysg amser llawn ar ôl iddynt fod yn 16 oed. Ychydig iawn o ddisgyblion a adawodd yr ysgol yn 16 oed yr adroddwyd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac mae'r gyfran hon yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol a chyfartaledd Cymru.

Yng nghyfnod allweddol 3, yn 2013, mae merched yn gwneud yn well na bechgyn yn y dangosydd pwnc craidd a phynciau craidd ar wahân ac mae'r bwlch yn fwy na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Yng nghyfnod allweddol 4, mae merched yn gwneud yn well na bechgyn ac mae'r bwlch yn fwy na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer yr holl ddangosyddion.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n waeth na chyfartaledd y teulu ar y cyfan. Yng nghyfnod allweddol 4, ceir tuedd o berfformiad yn gwella ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Maent yn perfformio'n well na chyfartaleddau'r teulu a Chymru ar gyfer y sgôr pwyntiau wedi'i chapio, a throthwyon lefel 2 a lefel 1. Yn 2013, mae'r disgyblion hyn yn perfformio'n waeth na chyfartaleddau'r teulu a Chymru ar gyfer trothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg a mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd, er bod eu perfformiad yn y tair blynedd blaenorol yn y dangosyddion hyn wedi bod yn well na chyfartaledd y teulu ar gyfer y disgyblion hyn. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni yn unol â'r disgwyl.

Yn asesiadau cyfnod allweddol 3, bu gwelliant cyflym mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn 2013 ar ôl perfformiad is na chyfartaledd y teulu yn gyffredinol yn y tair blynedd blaenorol. Mae perfformiad mewn darllen uwchlaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru erbyn hyn. Mae perfformiad mewn ysgrifennu wedi gostwng mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Bu gwelliant ynddo yn 2013 ac mae'n cyd-fynd â chyfartaledd y teulu erbyn hyn.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Uwchradd (Cyffredinol)

Mae'n dynodi'r meincnod – mae hyn yn gyfanswm o'r holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 216 | 86 | 120 | 7 | 3 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 40% | 56% | 3% | 1% | |
| | | 43% | 53% | 3% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 215 | 50 | 121 | 36 | 8 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 23% | 56% | 17% | 4% | |
| | | 26% | 58% | 14% | 2% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 215 | 92 | 113 | 7 | 3 | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 43% | 53% | 3% | 1% | |
| | | 38% | 53% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 215 | 52 | 121 | 37 | 5 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 24% | 56% | 17% | 2% | |
| | | 23% | 57% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 216 | 97 | 108 | 7 | 4 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 45% | 50% | 3% | 2% | |
| | | 45% | 45% | 8% | 2% | |
| I am doing well at school | 215 | 79 | 120 | 13 | 3 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 37% | 56% | 6% | 1% | |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 214 | 80 | 121 | 9 | 4 | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 37% | 57% | 4% | 2% | |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 215 | 33 | 110 | 51 | 21 | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 15% | 51% | 24% | 10% | |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 216 | 80 | 119 | 15 | 2 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 37% | 55% | 7% | 1% | |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 215 | 18 | 126 | 54 | 17 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 8% | 59% | 25% | 8% | |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |

| | | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff treat all pupils fairly and with respect | | 213 | | 64<br>30% | 111<br>52% | 32<br>15% | 6<br>3% | | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | | | 29% | 51% | 17% | 4% | | |
| The school listens to our views and makes changes we suggest | | 216 | | 35<br>16% | 132<br>61% | 41<br>19% | 8<br>4% | | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | | | 16% | 54% | 25% | 5% | | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | | 215 | | 75<br>35% | 129<br>60% | 10<br>5% | 1<br>0% | | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | | | 34% | 60% | 5% | 1% | | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | | 211 | | 74<br>35% | 120<br>57% | 15<br>7% | 2<br>1% | | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | | | 36% | 54% | 9% | 1% | | |
| The staff respect me and my background | | 216 | | 89<br>41% | 118<br>55% | 7<br>3% | 2<br>1% | | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | | | 37% | 54% | 7% | 2% | | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | | 216 | | 80<br>37% | 122<br>56% | 13<br>6% | 1<br>0% | | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | | | 36% | 56% | 7% | 1% | | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | | 97 | | 28<br>29% | 50<br>52% | 14<br>14% | 5<br>5% | | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | | | 28% | 52% | 15% | 5% | | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | | 20 | | 7<br>35% | 11<br>55% | 1<br>5% | 1<br>5% | | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | | | 28% | 50% | 16% | 6% | | |

# Ymatebion i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – mae hyn yn gyfanswm o’r holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 120 | 32 | 81 | 7 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 27% | 68% | 6% | 0% | | |
| | | 43% | 51% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 120 | 35 | 79 | 4 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 29% | 66% | 3% | 1% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 119 | 45 | 64 | 8 | 0 | 2 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 38% | 54% | 7% | 0% | | |
| | | 49% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 117 | 40 | 64 | 9 | 1 | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 34% | 55% | 8% | 1% | | |
| | | 45% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 116 | 10 | 62 | 19 | 5 | 20 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 9% | 53% | 16% | 4% | | |
| | | 21% | 55% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 120 | 18 | 88 | 5 | 0 | 9 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 15% | 73% | 4% | 0% | | |
| | | 33% | 57% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 119 | 41 | 66 | 2 | 0 | 10 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 34% | 55% | 2% | 0% | | |
| | | 50% | 45% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 119 | 14 | 57 | 32 | 5 | 11 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 12% | 48% | 27% | 4% | | |
| | | 31% | 53% | 9% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 119 | 16 | 83 | 8 | 1 | 11 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 13% | 70% | 7% | 1% | | |
| | | 32% | 49% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 119 | 28 | 75 | 6 | 0 | 10 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 24% | 63% | 5% | 0% | | |
| | | 33% | 53% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 120 | 28 | 80 | 4 | 2 | 6 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 23% | 67% | 3% | 2% | | |
| | | 41% | 52% | 3% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 115 | 27 | 56 | 12 | 5 | 15 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 23% | 49% | 10% | 4% | | |
| | | 32% | 46% | 7% | 2% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 120 | 36 | 64 | 17 | 2 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 30% | 53% | 14% | 2% | | |
| | | 34% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 119 | 47 | 57 | 10 | 1 | 4 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 39% | 48% | 8% | 1% | | |
| | | 41% | 48% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 119 | 21 | 79 | 11 | 2 | 6 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 18% | 66% | 9% | 2% | | |
| | | 27% | 51% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 118 | 31 | 68 | 3 | 0 | 16 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 26% | 58% | 3% | 0% | | |
| | | 35% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 117 | 18 | 60 | 16 | 0 | 23 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 15% | 51% | 14% | 0% | | |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 120 | 29 | 68 | 12 | 3 | 8 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 24% | 57% | 10% | 2% | | |
| | | 35% | 50% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 118 | 49 | 58 | 6 | 0 | 5 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 42% | 49% | 5% | 0% | | |
| | | 40% | 49% | 5% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Jackie Gapper | Arolygydd Cofnodol |
| Denise Wade | Arolygydd Tîm |
| Tony Sparks | Arolygydd Tîm |
| Farrukh Khan | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |
| Hugh Davies | Arolygydd Tîm |
| James Kerry Jones | Arolygydd Lleyg |
| Christine Prescott | Arolygydd Cymheiriaid |
| Juliet Peters | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |